Pobl ifanc a chyflogaeth

Mae'r daflen ffeithiau hon yn berthnasol i bobol ifanc sydd **dros oedran gadael ysgol, ac o dan 18 oed**. Gall pobol ifanc adael ysgol ar y dydd Gwener olaf ym mis Mehefin o'r flwyddyn ysgol lle maen nhw'n 16 oed (yn yr Alban, gall rhai disgyblion adael ar ôl y Nadolig) Gelwir pobol ifanc sydd yn y grŵp oedran hwn ac sy'n gweithio yn **weithwyr ifanc**.

Os ydych chi o dan oedran gadael ysgol, gweler Cymorth Pellach ar ddiwedd y daflen ffeithiau hon lle gallwch ddod o hyd i fwy o wybodaeth.

Rheolau cyffredinol ar gyflogaeth pobol ifanc

Mae yna gyfreithiau i warchod hawliau pobol sy'n gweithio. Mae'r rhain yn ymwneud â faint y dylid ei dalu i chi, faint o wyliau y medrwch eu cymryd, pryd y gellir eich diswyddo ac yn y blaen. Mae yna gyfreithiau arbennig i warchod hawliau gweithwyr ifanc. Mae'r rhain yn ymwneud â'ch iechyd a'ch diogelwch, pa waith y medrwch ei wneud, pryd fedrwch chi weithio, faint o oriau fedrwch chi weithio, ac amser i ffwrdd ar gyfer hyfforddiant. Mae'r cyfreithiau hyn yn llym a gellir erlyn cyflogwr am eu torri.

Iechyd a Diogelwch yn y gwaith

Os ydych chi'n weithiwr ifanc, rhaid i'ch cyflogwr wneud **asesiad** o beryglon **iechyd a diogelwch** posibl, cyn eich cyflogi. Rhaid iddyn nhw dalu sylw arbennig i'ch oedran, diffyg profiad, a ffactorau eraill allai beri risg i'ch iechyd a'ch diogelwch.

Mae yna gyfyngiadau arbennig ar y mathau canlynol o waith:

- gwaith nad ydych yn ddigon galluog i'w gyflawni yn gorfforol neu'n feddyliol.
- gwaith sy'n dod â chi i gysylltiad â chemegau, deunyddiau gwenwynig neu ymbelydredd
- gwaith sy'n golygu perygl iechyd oherwydd oerni, gwres neu ddirgryniad eithafol.

Caniateir i chi wneud y gwaith uchod o dan yr amgylchiadau canlynol yn unig:

- lle mae'n angenrheidiol ar gyfer eich hyfforddiant
- lle mae person profiadol yn eich goruchwylio
- lle mae unrhyw risg wedi'i ostwng i'r lefel isaf sy'n rhesymol.

Nid yw'r rheolau hyn yn berthnasol os ydych yn gwneud gwaith byr dymor neu waith achlysurol mewn busnes teuluol neu dŷ preifat, sy ddim yn cael ei ystyried yn niweidiol i chi.

Oriau gwaith a chyfnodau egwyl

Os ydych chi'n weithiwr ifanc, mae'r gyfraith yn dweud na ddylech chi weithio mwy nag **wyth awr y dydd**, neu mwy na **40 awr yr wythnos**. Rhaid i chi **gael deuddeg awr o orffwys** rhwng pob diwrnod gwaith, a **dau ddiwrnod o orffwys** bob wythnos

Hawlfraint © 2002-2010 Cyngor ar Bopeth. Cedwir pob hawl
Rhif elusen gofrestredig: 279057 Rhif y cwmni: 1436945 Lloegr

waith. Mae gennych hawl hefyd i **egwyl o 30 munud** pan fyddwch chi'n gweithio mwy na phedair awr a hanner. Mae yna rai eithriadau i hyn (gweler isod)
Os fyddwch chi'n aros yn yr ysgol, gall awdurdod addysg lleol gyfyngu ar y math o waith wnewch chi a faint o oriau y gallwch chi weithio.

Gweithio yn y nos

Mae yna gyfyngiadau arbennig ar yr oriau y medrwch eu gweithio yn y nos. Fel arfer ni allwch chi weithio rhwng 10pm a 6am. Os yw'ch cytundeb yn gofyn i chi weithio ar ôl 10pm rhaid i chi stopio gweithio am 11pm a dim dechrau eto tan 7am. Mae yna rai eithriadau i bobol sy'n gweithio mewn ysbytai, amaethyddiaeth, manwerthu, gwestai ac arlwyo, poptai, dosbarthu post/papur newyddion, neu mewn cysylltiad gyda gweithgareddau diwylliannol, artistig, chwaraeon neu hysbysebu**. Ni chaniateir i chi weithio rhwng canol nos a 4am, ac eithrio o dan yr amgylchiadau mwyaf eithriadol.**

Nid yw'r rheolau hyn yn berthnasol yn yr achosion canlynol:

- eich cyflogwr am i chi weithio er mwyn cynnal parhad gwasanaeth neu gynhyrchiad, neu i ymateb i dwf sydyn mewn galw; *a*
- ni fyddai'r gwaith yn effeithio ar eich addysg na'ch hyfforddiant; *a*
- nid oes oedolyn ar gael i wneud y gwaith; *a*
- rydych yn cael eich goruchwylio gan oedolyn (os yw hyn yn angenrheidiol ar gyfer eich diogelwch) a chaniateir i chi gael cyfnod o orffwys fel iawndal.

Os caniateir i chi weithio yn y nos, rhaid i chi yn gyntaf gael asesiad rhad ac am ddim o'ch iechyd a'ch gallu i wneud y gwaith. Dylid ailadrodd yr asesiad hwn yn rheolaidd. **Rhaid i chi beidio gweithio mwy nag wyth awr mewn unrhyw gyfnod o 24 awr.**

Gwyliau

Mae hawl cyfreithiol gennych i gael gwyliau gyda chyflog yn yr un ffordd â gweithwyr eraill. Mae faint o wyliau gyda chyflog gewch chi yn dibynnu ar faint o oriau yr ydych yn gweithio a phryd mae eich blwyddyn gwyliau yn dechrau.

Cyflog

Yr Isafswm Cyflog Cenedlaethol

Os ydych chi'n 16 neu drosodd (ac yn hŷn nag oed gadael ysgol) mae gennych hawl i dderbyn isafswm cyflog. Gelwir hwn yn Isafswm Cyflog Cenedlaethol, ac ar gyfer gweithwyr dan 18 oed mae hwn yn **£3.68 yr awr**. Os ydych chi dan 16, nid oes hawl gennych i dderbyn yr Isafswm Cyflog Cenedlaethol.

Cyflog Colli Gwaith

Nid oes hawl gan bobol dan 18 oed i dderbyn Cyflog Colli Gwaith.

Hawliau eraill

Os ydych chi'n **weithiwr cyflogedig**, fe fydd gennych hawliau eraill yn y gwaith, yn

Hawlfraint © 2002-2010 Cyngor ar Bopeth. Cedwir pob hawl
Rhif elusen gofrestredig: 279057 Rhif y cwmni: 1436945 Lloegr

ychwanegol at y rhai a enwyd eisoes. Mae'n debyg y byddwch yn weithiwr cyflogedig, oni bai eich bod yn un o'r canlynol:

- gweithiwr achlysurol
- gweithiwr ar eich liwt eich hun
- is-gontractwr

Os ydych chi'n weithiwr cyflogedig, fe fydd gennych **gytundeb cyflogaeth**, oherwydd eich bod wedi cytuno i weithio i'ch cyflogwr am gyflog. Fe fydd gennych gytundeb cyflogaeth, hyd yn oed os nad yw'n ysgrifenedig. Rhaid i'r cytundeb gynnwys isafswm o rai hawliau yn ôl y gyfraith. Gall eich cytundeb roi mwy o hawliau na'r isafswm y mae'r gyfraith yn eu caniatáu, ond ni all roi llai na hynny. Er enghraifft, ni all eich cytundeb roi llai na phedair wythnos o wyliau gyda chyflog mewn blwyddyn, os ydych chi'n gweithio pum diwrnod yr wythnos.

Os yw'ch cyflogwr yn torri eich cytundeb cyflogaeth, yn cynnwys unrhyw hawliau a restrir isod, fe allwch chi fynd â nhw at **dribiwnlys cyflogaeth**. Fe ddylech gael help oddi wrth ymgynghorydd cyflogaeth profiadol i wneud hyn (gweler Cymorth Pellach ar ddiwedd y daflen ffeithiau hon).

Mae'r hawliau sydd gennych fel gweithiwr cyflogedig yn cynnwys:

- derbyn **datganiad ysgrifenedig** o brif delerau eich cyflogaeth, o fewn 2 fis i ddechrau gweithio
- derbyn **slip cyflog** ysgrifenedig
- **dim triniaeth annheg** yn y gwaith oherwydd eich oedran, rhyw, hil, anabledd, rhywioldeb, crefydd neu gred
- **rhybudd o ddiswyddiad** o'r gwaith (ond mae'n rhaid eich bod wedi gweithio i'ch cyflogwr am fis o leiaf)
- **rheswm ysgrifenedig am ddiswyddiad** o'r gwaith (ond mae'n rhaid eich bod wedi gweithio, yn y mwyafrif o achosion, i'ch cyflogwr am flwyddyn o leiaf)
- yr **hawl i iawndal** os ydych wedi'ch diswyddo'n annheg (ond mae'n rhaid eich bod wedi gweithio, yn y mwyafrif o achosion, i'ch cyflogwr am flwyddyn o leiaf, ac fe ddylech chi godi achwyniad ysgrifenedig yn erbyn eich cyflogwr gyntaf)
- dim didyniadau anghyfreithlon o'ch cyflog

Mae gennych hefyd yr hawl:-

- i gael **amser i ffwrdd o'r gwaith** gyda chyflog **i gael babi**
- i gael amser i ffwrdd o'r gwaith gyda chyflog **os yw'ch partner wedi cael babi** (ond mae'n rhaid eich bod wedi gweithio i'ch cyflogwr am 26 wythnos o leiaf erbyn diwedd y 15fed wythnos cyn geni'r plentyn)
- yr hawl i ofyn am weithio **oriau hyblyg** os ydych yn rhiant neu'n gofalu am berthynas hŷn neu rywun arall sy'n byw yn eich cartref.

Amser i ffwrdd ar gyfer astudio neu hyfforddiant

Os ydych chi'n weithiwr cyflogedig sy'n 16 neu 17 oed a heb gyrraedd safon addysg neu hyfforddiant safonol hyd yn hyn, mae gennych hawl i amser rhesymol i ffwrdd

Hawlfraint © 2002-2010 Cyngor ar Bopeth. Cedwir pob hawl
Rhif elusen gofrestredig: 279057 Rhif y cwmni: 1436945 Lloegr

o'r gwaith ar gyfer astudio neu hyfforddiant. Dylech dderbyn cyflog am yr amser i ffwrdd ar eich graddfa fesul awr arferol.

Gweithio mewn bar

Os ydych chi'n 16 neu 17 oed, ni ddylai'r person sy'n ddaliwr trwydded eich cyflogi i weithio mewn bar pan fydd ar agor i werthu neu i yfed alcohol, oni bai fod y gwaith a wnewch yn rhan o gynllun hyfforddiant cymeradwy. Os bydd y daliwr trwydded yn eich cyflogi chi yn yr amgylchiadau hyn, y daliwr trwydded, ac nid chi, fydd yn cyflawni trosedd.

Gweithio i'r Lluoedd Arfog

Os ydych chi o dan 18 oed, fel arfer fe fydd angen caniatâd y ddau riant arnoch i ymuno â'r lluoedd arfog. Os yw'ch rhieni wedi gwahanu neu wedi ysgaru, dim ond caniatâd y rhiant yr ydych yn byw gyda fydd ei angen.

Mae gan y Lluoedd Arfog eu cyfyngiadau oedran eu hunain sy'n adlewyrchu'r anghenion recriwtio presennol. Mae manylion ar gael oddi wrth eich swyddfeydd gyrfau Lluoedd Arfog lleol.

Aelodaeth Undeb Llafur

Mae'r mwyafrif o undebau llafur yn caniatáu i bobol ifanc i ymuno yn 16 oed.

Cymorth ychwanegol

Y Ganolfan Cyngor ar Bopeth
Mae'r Canolfannau Cyngor ar Bopeth yn rhoi cyngor cyfrinachol, diduedd ac annibynnol yn rhad ac am ddim i'ch helpu chi i ddatrys eich problemau. I ddod o hyd i'ch CAB agosaf, gan gynnwys y rheiny sy'n rhoi cyngor drwy e-bost, cliciwch ar CAB agosaf neu edrychwch yn eich llyfr ffôn dan y llythyren C.

Gwybodaeth arall ar Adviceguide a allai eich helpu

- Hawliau Sylfaenol yn y gwaith
- Plant a chyflogaeth
- Isafswm Cyflog Cenedlaethol
- Gwyliau a thâl gwyliau
- Cyflogwr yn dal eich cyflog yn ôl
- Oriau Gwaith

Caiff y dudalen ffeithiau hon ei chynhyrchu gan Gyngor ar Bopeth enw gweithredol Cymdeithas Genedlaethol y Canolfannau Cyngor ar Bopeth. Ei ddiben yw darparu gwybodaeth gyffredinol yn unig ac nid yw'n ddatganiad llawn o'r gyfraith. Mae'r wybodaeth yn berthnasol i Loegr, Cymru a'r Alban yn unig.

Diweddarwyd y daflen ffeithiau hon ar 1 Hydref 2011, a chaiff ei adolygu bob mis. Os ydych wedi cael y daflen ffeithiau hon am gyfnod, cysylltwch â'ch Canolfan Cyngor ar Bopeth er mwyn gwirio os yw'r wybodaeth sydd arni yn dal i fod yn gywir. Neu rhowch glic ar ein gwefan - - www.adviceguide.org.uk - lle gallwch lawr lwytho copi diweddaraf.

Hawlfraint © 2002-2010 Cyngor ar Bopeth. Cedwir pob hawl
Rhif elusen gofrestredig: 279057 Rhif y cwmni: 1436945 Lloegr